

Iesu'n iacháu llawer o bobl yn ardal Capernaum

Mathew 8: 14-17; Marc 1: 21-39;
Luc 4: 31-44



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
Mathew 8: 14-17; Marc 1: 21-39; Luc 4: 31-44	A colorful illustration of Jesus in a green robe with a yellow sash, surrounded by people in a synagogue. The text 'JESUS DELIVERS AND HEALS IN CAPERNAUM' is overlaid on the image, along with the Bible references and the website URL.	
1 Roedd Iesu a'i ddisgyblion yn Capernaum. Ar y dydd Saboth (pan oedd yr Iddewon yn addoli Duw), aeth Iesu i'r synagog a dechrau dysgu'r bobl.	An illustration showing Jesus in a white robe with a blue sash, standing in a synagogue and pointing towards a group of people seated on the floor.	
2 Roedd pawb yn rhyfeddu at beth roedd yn ei ddysgu. Roedd yn wahanol i'r arbenigwyr yn y Gyfraith — roedd ganddo awdurdod oedd yn gwneud i bobl wrando arno.	An illustration of Jesus in a white robe with a red sash, standing and talking to a man in a white robe who is holding a book.	
3 Yna'n sydyn dyma ryw ddydd oedd yn y synagog yn rhoi sgrech uchel. (Roedd y dyn wedi ei feddiannu gan ysbryd drwg). "Gad di lonydd i ni, Iesu o Nasareth. Rwyd ti yma i'n dinistrio ni. Dw i'n gwybod pwy wyt ti — Un Sanctaidd Duw!"	An illustration of Jesus in a green robe with a yellow sash, surrounded by people in a synagogue. The scene is similar to the first illustration.	

-
- 4 “Bydd ddistaw!” meddai Iesu'n ddiog. “Tyrd allan ohono!”



-
- 5 Dyma'r ysbryd drwg yn gwneud i'r dyn ysgwyd yn ffyrnig, yna daeth allan ohono gyda sgrech uchel.



-
- 6 Roedd pawb wedi cael sioc, ac yn gofyn i'w gilydd, “Beth sy'n mynd ymlaen? Mae'r hyn mae'n ei ddysgu yn newydd — mae ganddo'r fath awdurdod! Mae hyd yn oed ysbrydion drwg yn gorfod ufuddhau iddo.” Roedd y sôn amdano yn lledu fel tân gwyllt drwy holl ardal Galilea.




-
- 7 Yn syth ar ôl gadael y synagog dyma Iesu'n mynd i gartref Pedr. Yno gwelodd fam-yng-nghyfraith Pedr yn ei gwely gyda gwres uchel.



-
- 8 Cyffyrddodd Iesu ei llaw hi a diflannodd y tymheredd oedd ganddi, a dyma hi'n codi o'i gwely a gwneud pryd o fwyd iddo.




-
- 9 Wrth i'r haul fachlud y noson honno dechreuodd pobl ddod at Iesu gyda rhai oedd yn sâl neu wedi eu meddiannu gan gythreuliaid. Roedd fel petai'r dref i gyd yno wrth y drws!



-
- 10 Dyma Iesu'n iacháu nifer fawr o bobl oedd yn dioddef o wahanol afiechydon. Bwrïodd gythreuliaid allan o lawer o bobl hefyd. Roedd y cythreuliaid yn gwybod yn iawn pwy oedd Iesu, ond roedd yn gwrthod gadael iddyn nhw ddweud gair.



-
- 11 Y bore wedyn cododd Iesu'n gynnar iawn. Roedd hi'n dal yn dywyll pan adawodd y tŷ, ac aeth i le unig i weddio.



-
- 12 Cyfieithwyd gan www.beibl.net



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by freebibleimages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported licence.

www.freebibleimages.org
